

MARWNAD

YR ANRHYDEDDUS

THOMAS LLOYD, Yscwier,

Yn ddiweddar o *Gwmgloyn*, ym Mhlwyf *Nhyfern*, yn Sir *Bemfro*, yr hwn oedd gyflawn o holl addurniadau Boneddigeiddrwyd. Er ein mawr Dristwch, a cholled cyffredin i'n gwlad, efe a hunodd *Ionawr 21, 1788*; yn y Flwyddyn o'i Oed ei hun, 55.

A Gynganeddwyd gan **IOAN SIENCIN**, o Aberteifi; ag sydd i'w ganu ar Dôn alarus, a elwir **Calon Drom** or **Heavy Heart**.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross (Argraffydd a Gwerthwr Llyfrau), yn Heol Awst 1788.

1. Nid yw'n bywydau, mae'n wybodol,
Ar y twyn, ond ansertennol;
Heddyw'n dawel, yn blodeuo,
Yn farw swrth, y foru'n syrthio.
Weithiau ein pennaethiaid doethion.
A gludir ymmaith, er mawr alaeth i'r bywolon.
Duw ei hun, nid dyn bia'r dewis;
Nid oes gwrth'nebu ei fawr allu, na'i ewyllys.
2. Cwyn galarus, sydd gan lawer,
Yn ol Tomas Llwyd Yscwier;
O Gwmgloyn, lle'r oedd e'n dadnaeth,
'Tawel, tirion i'r wladwriaeth;
A chymydog, mawr parchedig,
Llaw'n o urddas, aeddfwyn addas fab bonheddig.
Ond gwr mewn oedran, ac ymadrodd;
Onest ffyddlon, llariaidd rhadlon ffordd y rhodiodd,
3. Yr oedd e'n llwyn cysgodfawr parchus,
O lwynau'r hen Frutaniaid hoenus;
Gwynfardd Dyfet, ⁽¹⁾ a'i hiliogaeth;
Gynt oedd furiau, rhag bradwriaeth.
O'r Winllan wresog, ni gawn lesiant,
Gwinwydd ffrwythlon, a grawn dofion ynthi dyfant
Ond o'r anwrteithiol berthi,
Cawn rawn surion, a drain mawrion a mieri.
4. Yn amal fel ehedau'r, gwenyn,
I 'mofyn mel, o flodau'r dyffryn;
I 'mofyn cyssur, wrth achosion,
I Gwmgloyn, y cerdeu dynion;

- Lle caenti gywir farn ysturiol ;
 O enau'r Ustus, mwyn gwybodus cydwybodol,
 Er maint eu gallu, a'u dichelion ;
 Ni chai'r bradwyr, na'r traws anwir, dreisio'r union.
5. Gwr bonheddig, oedd e' trwyddo,
 Difalch hawddgar, hawdd ei deimlo ;
 Glan o bryd, a llawn o synwyr.
 Ym mhob achosion, yn gymmhesur ;
 Doeth o galon, eithaf gwladwr,
 Pwyllig manol, a defnyddiol dangnefyddwr,
 A phawb yn ostynedig iddo,
 Trwy'r cariad prysur, oedd yn natur dynion atto.
6. Trafaelwyr moroedd, a mynyddau,
 A gyrhaeddent o bob graddan ;
 I Gwmgloyn, lle caent eu groeso,
 A'r negeson faent yn geisio.
 Swyddogion gwlad, ac eglwys yma.
 Efe rows lawer, trwy iawn bwer yn ei bara.
 A rhai tylodion, wrth ei ddrysau,
 A gaent serchog (o'i lys enwog) elysennau.
7. Rhoi llyfrau wnaeth, i blant tylodion,
 Ac aur eilwaith, at ysgolion ;
 A gwella clwyfau, dwfnion erchill,
 Oedd ar ddynion gweinon eraill ;
 Eu trin eu hun, a bwyd o'r gwanna,
 Nes byddai'r truan, cyn myn'd allan, wedi gwella.
 Gan bwy y mwy y can' hwy gyngor ?
 Gwae i'r gweiniaid, oedd ei weled ar ei elor.
8. Gwr anwyl oedd, a di ddichellion,
 Yn onest trwy ei holl fargennon ;
 Ac yn onest ac yn gywir,
 Fe wnaeth yn union, a'i ofynwyr.
 Dyll y byd yw myn'd a dyfod ;
 Nid yw'r ddaeren ond rhyw droellen llawn o drallod,
 Nid oes hanes, trwy'r 'sgrhythurau,
 I fyw yn dduwiol un dyn grasol heb ei groesau.
9. Ni wariodd gwys, o'i dir na'i foddion,
 Ar hyfrydwch gwyllt afradlon ;
 Nag wrth ddal ar draed ceffylau,
 Na choeg wagedd, na cheiliogan ;
 Nac ar drachwant nwyfiant natur,
 Nid oedd lareiddach, na'i ddiweirach dan yr awyr.
 Ond trwy fechneu, dros rhai trafferthus,
 A chael colledion, ar yr eigion mawr peryglus.

10. Yr oedd e'n Batrwn i'r Wladwriaeth,
 O'r oes yma, am hwsmonaeth ;
 A'i deiau'n lan, a'i dir yn drefnus,
 Drosto'n ffrwytho yn doreuthus ;
 A'i was'naethwyr, a'i ddeiladen,
 I gyd a'i carent, a dangosent hynny'n gysson.
 A phob methedig, dan ei adain,
 'Roedd e'n eu sirio, nes baent yno meirw ei hunain.
11. Pumtheg mlwydd a deugain ydoedd,
 Yn mis Ionawr, pan yr hunodd ;
 Un fil saint cant, pedwar ugain,
 Ac wyth a gaf, 'na ddaeth yn gyfain ;
 Dyna'r flwyddyn, oer aflawen,
 Daeth cwyn afrifaid, rhwng y Llwydaid achau llyden.
 A'r ⁽²⁾ Scourfields oll, ar ⁽³⁾ Bowens graddol,
 Ein glan flaenoriaid, ar ⁽⁴⁾ Lewisiaid wyr dewisiol.
12. Mae ⁽⁵⁾ Aberteiff'n gweled eisiau,
 Am un o'i phen gynghorwyr goreu ;
 A'r gymdeithas, anrhydeddus,
 O ⁽⁶⁾ Eglwyswrw, sy'n alarus ;
 Ar ol yr aelod werthfawr odiaeth,
 Oedd er dyrchafiad, hyfryd alwad i'r frawdoliaeth.
 Trafaelwyr geirwir, oedd e'n garu,
 A'r hen Fruttaniaeth, enwog effaith oedd e'n hoffi.
13. Gwas'naethu Duw, yr oedd e'n ddiwid,
 Yn ei dy a'r eglwys hefyd ;
 Ac fe ganai yn soniarus,
 Yno fawl, i Dduw yn felus ;
 Gwneud ei ch'weirio gyda chariad,
 Fel byddai'n drefnus, babell ddilus i'r addoliad.
 Y Baufil bach, di a'i'n wanach trwyddot,
 Yn ol ein Ustus, aeddfwyn dawnus gladdwyd ynot.
14. Fe'i tywyswyd, er ei lesiant,
 Diammeu genom, i ogoniant ;
 Yn un arafaidd, o'r gwryrfon,
 Sy'n eu cannaid wnau gwynion,
 Yn canlyn Crist, eu prynwr diddan,
 Yng ngogoneddus, lys daionus Duw eu hunan.
 Yn ddisgleiriach nag yw'r haulwen,
 Drwsiad tesol, hoffaidd siriol o'r ffurfafen.
15. Yn ol y 'Sewier a'i haelioni,
 Cyd ddymunwn, bawb ddaioni
 I Morris Willams, trwy anrhydedd,
 Ei gar natturiol a'i etifedd ;

I godi'n ddewisedig wladwr,
Fel a'i bu yntau'n ddoetin, a dethau lywodraethwr.
A rhoi'n wresog, lle bo'r eisiau,
(Pura perwyl) o'i lys anwyl elysennau.

— TERFYN. —

(1). The Coat of Arms of the Honourable THOMAS LLOYD. Esq.,
and his Ancestors as followeth :—

Gule, a Lion Rampant or inter 11. Roses argent (Gules. 3 Snakes knotted triangular argent)—Their Descendant was from Gwynfardd Dyfet, in the time of Edward Confessor 1030. The said Gwynfardd Dyfet, was son of Pwylpendefig Dyfet, which was the son of Argoel Law-Hir, which was the son of Pur y Dwyrain, which was the son of Llywelyn who was in the Wars with Julius Cæsar at Aberconwy, and a Governor of His Army. So the Old Herald's give Account.

- (2). Mam y diweddar Tomos Lloyd o Gwmgloyn, Ysr, oedd ferch i Wm. Scourfield, o'r Mote, Ysr.
- (3). Bowens o Llwyngwair, Ysrs.
- (4). Lewisiaid gynt o Goedmore, a Phant-yr-odyn yn Sir Aberteifi, Ysrs.
- (5). Yr oedd efe yn un o gynghorwyr a Henuriaid (Elerman) yn Aberteifi.
- (6). Yr oedd yn Aelod o Gymdeithas y Llafurwyr yn Eglwyswrvw.

NODIAD.

Un copi yn unig o'r FARWNAD hon y gwyddis am dani saf yn y Llyfrgell Genedlaethol. Trwy garedigrwydi J. Ballinger, Ysw., M.A., C.B.E., cafwyd gwawl-lun o'r FARWNAD yr hon sydd un ddalen lydan *Broadsheet* er hwylusdod argreffir hi yn awr yn y dull hwn. Ceir yr ysgrif wreiddiol a anfonodd yr awdur i'r teulu wedi ei chydrwymo a'r copi argraffedig. Y mae llawysgrif o Farddoniaeth Ioan Siencin y "Bardd Bach" o'r hon cafodd Ioan ab Hywel ddefnyddiau i'r "Blodau Dyfed" 1824, yn y Llyfrgell Genedlaethol dan y Rhif 19b add. MSS. Gweler y FARWNAD ym "Mlodau Dyfed" tud. 300. Felly ceir lau copi mewn llawysgrif a dan yn argraffedig, er fod yna amryw o linellau a geiriau yn gwahaniaethu ynddynt Ad-argreffir hon air am air ar un wreiddiol.



Un o hen Feirdd Cwmdu yn Emlyn oedd yr Ioan Siencin hwn Ganed yn y Cwmdu, Mawrth 26, 1716, bu farw Hydref 28, 1796, a chladdwyd yn Llan-goedmor.

JOHN DAVIES,
Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.



Ad-argraphwyd hon gan John Davies (Ieu.), trwy garedigrwydd Mri. D.
Jones a'i Feibion, Argraffwyr, Caerfyrddin.

1922.

tri
un
ysgrif
Nghan
dysp

tri